Mae ein cymuned wedi gwneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigiwyd i wella drwy:

- **2,317 o sesiynau sgiliau busnes** - megis rhagweld llif arian, paratoi ar gyfer arolygiadau, datblygu polisïau, cryfhau strwythur cyfreithiol a hyrwyddo eu gwasanaeth yn broffesiynol.
- **37 Clwb Hwbs** - (gweminarau rhwydwaith) ar ystod eang o bynciau a lywiwyd gan Glybiau.
- **484** o gynlluniau gweithredu ar gyfer gwelliant gan ddefnyddio offer gwella myfyriol, gyda chanllawiau cam wrth gam i wella arfer mewn meysydd megis gwrth-hiliaeth, diogelu, cynllunio'r gweithlu ac arferion busnes cyffredinol a thwf.

"O'r cychwyn cyntaf, gwnaethant i mi deimlo nad oeddwn ar fy mhen fy hun; mae'n wych gwybod bod pobl sy'n wirioneddol ofalu ac yn barod i helpu. Maent wedi fy arwain i'r cyfeiriad cywir, gan rannu cyngor ac adnoddau gwerthfawr sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol."

Gyda'n gilydd, rydym wedi cyflawni mwy na'r disgwyl, gyda chanlyniadau cadarnhaol wedi rhagori ar draws pob maes o'r prosiect.

Hoffem estyn ein diolch diffuant i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am wneud y gwaith hwn yn bosibl.

Cynnwys ein cymuned

Mae ein prosiect wedi cael ei lywio gan ymgysylltu uniongyrchol â chlybiau, rhieni, partneriaid a'r sector gofal plant ehangach.

- Gwrandao ar glybiau a theuluoedd;



**Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Gofal
Plant All-Ysgol 2024/5 - Clybiau Plant
Cymru (CYM)**



**Adroddiad Arolwg Cenedlaethol Rhieni 2025
- Clybiau Plant Cymru (CYM) (y mwyaf
diweddar)**

mae gwerthusiadau o gymorth busnes a gweminarau, ynghyd â chyfathrebu rheolaidd, yn helpu i nodi anghenion, blaenoriaethau a heriau sy'n dod i'r amlwg ar draws y sector.

- Troi adborth i mewn i weithrediad: Defnyddiwyd ymatebion i arolygon a chanlyniadau offer gwella ansawdd (e.e. Asesiad Gofal Plant All-Ysgol, Pecyn Cymorth Archwilio Gwrth-hiliaeth, Gwiriad Iechyd Diogelu) gyda'n Cymuned Gofal Plant All-Ysgol i lywio cynlluniau gweithredu wedi'u teilwra ar gyfer clybiau unigol, cymorth ar draws y sector cyfan a'n strategaeth ein hunain.
- Defnyddio tystiolaeth i lywio cymorth: Defnyddir y canfyddiadau uchod hefyd i gynllunio gweminarau Clwb Hwb, adnoddau a chymorth yn y dyfodol, gan gynnwys pynciau y gofynnwyd amdanynt gan leoliadau megis rheoli ymddygiad plant, cefnogi anghenion ychwanegol, cyfleoedd cyllido a gwrth-hiliaeth.
- Creu mannau ar gyfer dysgu gan gymheiriaid: Mae Clwb Hwbs yn darparu cyfleoedd i drafod, cael cymorth gan gymheiriaid, rhannu arfer da a chael mewnbwn arbenigol gan ymarferwyr (e.e. chwarae yn yr awyr agored/natur, ymddygiadau cadarnhaol, cefnogi plant ag anghenion ychwanegol) ac arbenigwyr eraill (e.e. Arweinydd Llesiant Cymru). Darllenwch ragor yma



**Tyfu Gyda'n Gilydd Drwy Dysgu:
Uchafbwyntiau o'n gweminar Clwb Hwb**

ac yma



**Mynychu Clwb Hwb Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
(Gweminarau) - Bridging the Gap Youth: Lisa Clack**

- Adeiladu ar gryfderau'r sector: Mae astudiaethau achos, gweminarau Clwb Hwb, straeon llwyddiant, pecynnau adnoddau (e.e. [Pecyn Adnoddau Seiberddiogelwch - Clybiau Plant Cymru \(CYM\)](#)), bwletinau a'r cyfryngau cymdeithasol yn helpu clybiau i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac ailadrodd dulliau effeithiol.
- Cryfhau dealltwriaeth o'r sector: Mae ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, partneriaid gofal plant, awdurdodau lleol a fforymau amlasiantaeth yn sicrhau bod y cymorth yn cael ei lywio gan ystod eang o safbwyntiau.
- Mae cydweithio a chyfathrebu cryf yn fewnol hefyd wedi galluogi ein cymuned i wneud y mwyaf o'r cyfle a'r effaith sy'n deillio o ystod gyfan o brosiectau a mentrau ategol. [Clwb Twm](#)

Dysgu yn y Prosiect hwn Ymgysylltu

Mae lefelau uchel o ymgysylltu â'n Cymuned (gweler uchod) wedi ein galluogi i lunio cymorth mwy ymatebol ac ymarferol i'r sector. Mae cynaliadwyedd ariannol a recriwtio/cadw staff yn parhau'n heriau mawr ac fe'u hystyrir yn ein Prosiect 'Cymunedau Gofal Plant Ffyniannus' newydd. Mae staff y prosiect, drwy weithio'n agos gyda chydweithwyr sy'n cyflwyno mentrau cymorth eraill a phartneriaid eraill, yn ymestyn cyrhaeddiad pob prosiect ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i glybiau.

Darparodd canfyddiadau [Adroddiad Arolwg Cenedlaethol Rhieni 2025](#) dystiolaeth bwysig ar gyfer cymorth, gan ddangos bod teuluoedd yn gwerthfawrogi gofal plant am ddatblygiad cymdeithasol plant, cyfeillgarwch, gweithgareddau newydd a sgiliau. Mae rhieni'n dewis gofal plant ar sail lleoliad, ansawdd, pris a staff da, tra bo cost, oriau darpariaeth cyfyngedig ac ymwybyddiaeth o ofal plant lleol yn parhau'n rhwystrau i ddefnyddio mwy o wasanaethau, gyda dim ond 69% yn deall y gwahaniaeth rhwng gofal plant sydd wedi'i gofrestru ag AGC a gofal plant heb ei gofrestru.

Gweminarau

Mae presenoldeb mewn gweminarau misol wedi cynyddu (o gyfartaledd o 11 ym mlwyddyn 1 i gyfartaledd o 18 ym mlwyddyn 3) drwy:

- gynllunio cynnar
- hyrwyddo cryfach ar y cyfryngau cymdeithasol
- cyd-gyflwyno gydag arbenigwyr pwnc ac ymarferwyr (e.e. Arolygiaeth Gofal Cymru, ymddygiad, llesiant ac anghenion ychwanegol)
- eu lleoli fel cyfleoedd DPP
- e-dystysgrifau, nodiadau atgoffa a
- ystod ehangach o fformatau cyflwyno, gan gynnwys sesiynau galw heibio anffurfiol megis Facebook Live

Mae adnoddau dilynol, gan gynnwys recordiadau o weminarau a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r gweminarau, yn cael eu gwerthfawrogi gan gyfranogwyr, yn enwedig pan fo codau QR yn darparu mynediad cyflym at ddeunyddiau –

"Am eich mewnwelediad ar y cwrs Partneriaeth â Rhieni, roedd yn gwrs gwych ac mae'r gofal dilynol nawr, a'r meddwl am ein lleoliadau ac amdanom ni fel unigolion, mor garedig."

Mae data arolygon, cynlluniau gweithredu ar gyfer gwelliant ac adborth parhaus yn llywio cynnwys gweminarau yn uniongyrchol.

Cymorth busnes

Mae datblygu fersiynau ar-lein o becynnau cymorth gwella ansawdd a chynlluniau gweithredu (e.e. ar gyfer ymatebion i'r Arolwg Cenedlaethol o Glybiau a'r Gwiriad Iechyd Diogelu) yn helpu i nodi camau blaenoriaeth yn gyflymach, darparu adborth mwy teilwredig a chefnogi lleoliadau yn strategol i gryfhau llywodraethu ac ansawdd yn benodol. Bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn mwy o'r pecynnau cymorth wrth symud ymlaen.

Bydd y sefydliad yn cadw ar ben mentrau a dysgu sy'n dod i'r amlwg, e.e. Fframwaith Llesiant Cymru a Gofal sy'n Ystyriol o Drawma, er mwyn cefnogi llesiant plant a'u hymgorffori mewn cymorth yn y dyfodol i'n Cymuned.

Mae sgoriau gwerthuso ar gyfer cymorth busnes yn parhau'n uchel, er bod cyfraddau ymateb yn isel. Felly, mae llwybrau adborth ychwanegol wedi'u cyflwyno drwy godau QR, cofnodion ymweliadau a'r CRM, gyda chyfraddau ymateb i'w cynnwys yn nhargedau staff fel y gellir eu monitro a'u gwella.

Canlyniadau'r Prosiect: Y gwahaniaethau rydym yn eu gwneud drwy ein prosiect Cymunedau Gofal Plant Cysylltiedig

Canlyniad 1: Mae cymunedau yng Nghymru yn elwa ar wasanaethau o ansawdd sy'n cael eu gwella drwy gynllunio gweithredu i ddiwallu eu hanghenion sy'n esblygu.

Datblygu 135 o Gynlluniau Gweithredu pwrpasol (dros gyfnod y Prosiect) i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd drwy ymatebion unigol i'r Arolwg Cenedlaethol o Glybiau a'r Asesiad Gofal Plant All-Ysgol (OSCA), ynghyd ag adborth gan bartneriaid eraill (e.e. adroddiadau arolygu AGC/adborth awdurdodau lleol).

Gweithredoedd	Effaith/Canlyniad: beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r weithred	Tystiolaeth: enghreifftiau, astudiaethau achos ac ystadegau sy'n dangos yr effaith																																
Cyflwynwyd 1,000 o sesiynau sgiliau busnes yn ymwneud â chodi ansawdd a chefnogi arferion o ansawdd, gyda 1,510 o fynychwyr. <table><tr><th>YTD</th><th>Sgiliau Busnes</th></tr><tr><td>87</td><td>Cymorth parhaus AGC</td></tr><tr><td>484</td><td>Cynlluniau Gweithredu</td></tr><tr><td>88</td><td>Rhestrau gwirio</td></tr><tr><td>74</td><td>Sefydlu gofal plant</td></tr><tr><td>190</td><td>Cefnogi Arferion o Ansawdd</td></tr><tr><td>68</td><td>Cyfeirio at gymorth gyda'r Gymraeg</td></tr><tr><td>9</td><td>Cadw cofnodion (anariannol)</td></tr></table>	YTD	Sgiliau Busnes	87	Cymorth parhaus AGC	484	Cynlluniau Gweithredu	88	Rhestrau gwirio	74	Sefydlu gofal plant	190	Cefnogi Arferion o Ansawdd	68	Cyfeirio at gymorth gyda'r Gymraeg	9	Cadw cofnodion (anariannol)	Gwell sgiliau a gwybodaeth i gefnogi ansawdd lleoliadau presennol/newydd, gan gynnwys cydymffurfiaeth barhaus â'r rheoleiddiwr (AGC). 484 o gynlluniau gweithredu teilwredig wedi'u cefnogi: • 240 mewn ymateb i'r Arolwg Cenedlaethol o Glybiau • 78 o offeryn gwella ansawdd Asesiad Gofal Plant All-Ysgol (OSCA) • 90 diogelu • 3 cynllunio'r gweithlu • 38 ymgorffori gwrth-hiliaeth • 35 arall	<table><tr><th></th><th>Cyflawnwyd</th><th>Targed</th><th>Amrywiant</th></tr><tr><td>Cynlluniau Gweithredu</td><td>484</td><td>135</td><td>+349</td></tr><tr><td>Digwyddiadau rhwydwaith</td><td>37</td><td>36</td><td>+1</td></tr><tr><td>Cyfranogwyr rhwydwaith</td><td>596</td><td></td><td></td></tr></table> Bu'r cymorth a ddarparwyd drwy'r prosiect yn helpu clybiau i feithrin hyder a gwydnwch yn ystod cyfnodau heriol.		Cyflawnwyd	Targed	Amrywiant	Cynlluniau Gweithredu	484	135	+349	Digwyddiadau rhwydwaith	37	36	+1	Cyfranogwyr rhwydwaith	596		
YTD	Sgiliau Busnes																																	
87	Cymorth parhaus AGC																																	
484	Cynlluniau Gweithredu																																	
88	Rhestrau gwirio																																	
74	Sefydlu gofal plant																																	
190	Cefnogi Arferion o Ansawdd																																	
68	Cyfeirio at gymorth gyda'r Gymraeg																																	
9	Cadw cofnodion (anariannol)																																	
	Cyflawnwyd	Targed	Amrywiant																															
Cynlluniau Gweithredu	484	135	+349																															
Digwyddiadau rhwydwaith	37	36	+1																															
Cyfranogwyr rhwydwaith	596																																	

27

Enghraifft Woodpeckers

Darllenwch ragor [yma](#).

Er enghraifft, llwyddodd [Woodpeckers Out of School Club](#) i lywio newid sylweddol yn llwyddiannus drwy ddefnyddio pecynnau cymorth ymarferol a datblygu cynlluniau gweithredu, gan arwain at welliannau mesuradwy mewn ansawdd a gafodd eu cydnabod yn eu harolygiad AGC. [Woodpeckers X Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs - Clybiau Plant Cymru \(CYM\)](#) and summary from Y Bont within Year 3 report

"Rydym wedi cael cyngor ac arweiniad rhagorol... mae eu cymorth wedi bod o werth mawr i ni."

Mae'r cymorth hefyd wedi gwella arferion gwrth-hiliol lleoliadau.

Enghreifftiau Plantos/Cwtch Childcare

Gyda chymorth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, mae'r tîm rheoli wedi magu hyder i roi adborth a gwneud newidiadau ar draws y feithrinfa gyfan. Darllenwch ragor yma [Plantos: Myfyrio drwy'r Pecyn Cymorth Archwilio Gwrth-hiliaeth](#)

"... mae'r Unigolyn Cyfrifol (RI) a'r Personau â Gofal (PiCs) yn arwain y gwaith ar y pecyn cymorth hwn ac yn mynd ati i rannu gwybodaeth â'r tîm staff cyfan drwy negeseuon ap a chyfarfodydd tîm llawn. Rydym hefyd yn sicrhau ei fod yn eitem ar yr agenda ym mhob cyfarfod rheoli a chyfarfod ystafell unigol."

Cwtch Childcare

"Mae Clwb Gofal Plant All-Ysgol Cwtch wedi bod yn gweithio drwy'r pecyn cymorth archwilio gwrth-hiliaeth i fyfyrion ar gydraddoldeb i bawb a'i dystiolaethu ar eu taith tuag at ddod yn leoliad gwrth-hiliol."

Enghraifft Once Upon a Time

Ac i gefnogi mesurau diogelu lleoliadau: roedd **Once upon a time** am sicrhau bod ganddynt yr holl ddogfennau a mesurau ar waith i atgyfnerthu eu mesurau diogelu eu hunain.

"Roedd y Gwiriad lechyd Diogelu yn hynod ddefnyddiol i sicrhau bod gennym yr holl bolisïau cywir ar waith ac i nodi unrhyw feysydd gwaith yr oedd angen i ni eu datblygu."

Clwb Hwbs/Gweminarau

40 Clwb Hwb/gweminar â phresenoldeb da (**611** o gyfranogwyr), yn aml wedi'u cyd-gyflwyno gydag arbenigwyr ac ymarferwyr.

Mae'r rhain wedi parhau i dyfu'n ofod dysgu bywiog a chefnogol i'r Gymuned Gofal Plant All-Ysgol. Cyflwynwyd dysgu cefnogol a hygyrch mewn sesiynau byr gyda'r nos er mwyn cyd-fynd ag amserlenni prysur a diwallu anghenion y sector.

Cafodd ystod eang o bynciau eu trafod i gefnogi datblygiad gwybodaeth a sgiliau'r mynychwyr:

- Marchnata
- Cynnwys plant yn nhrefniadau llywodraethu'r Clwb
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol wedi'u hadnewyddu gyda siaradwr gwadd o AGC
- Cyflwyno'r Gymraeg i Ofal Plant All-Ysgol
- Goruchwyliaethau ac arfarniadau
- Cynaliadwyedd
- Cynnwys plant mewn llywodraethu (Facebook Live)
- Ymddygiad mewn Clybiau Gofal Plant All-Ysgol [Podlediad gyda Sonia Wearne - Ymddygiad, o safbwynt rhiant a gweithiwr chwarae - Clybiau Plant Cymru \(CYM\)](#)
- Pwysigrwydd chwarae i blant a phobl ifanc anabl a niwroamrywiol
- Cyflwyniad i seiberddiogelwch
- Diogelu mewn Clybiau Gofal Plant All-Ysgol
- Polisi chwarae
- Yr ymagwedd gwaith chwarae
- Gwneud cais am gyllid
- Popeth am y Gymraeg

Cafwyd adborth cadarnhaol gan fynychwyr yn seiliedig ar sgoriau gwybodaeth hunanasesedig (allan o 5) o werthusiadau ar ôl y sesiynau. Mae canlyniadau'r gwerthusiadau'n dangos lefelau boddhad hynod uchel.

- Cynnydd cyfartalog sylweddol yn y sgôr gwybodaeth o **3.31** at the start of sessions to **4.58 ar y diwedd**, gan ddangos cynnydd sylweddol yn nealltwriaeth a hyder cyfranogwyr.
- **98%** -o'r ymatebwyr a nododd fod y sesiynau'n ddefnyddiol iawn/eithaf defnyddiol.
- **97%** -o'r cyfranogwyr a oedd yn bwriadu rhoi'r dysgu ar waith yn ymarferol.
- **97%** sy'n debygol o fynychu mwy o Sesiynau Sgiliau Busnes a hyfforddiant o bell.

"Roedd digon o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y sesiwn ac roeddem yn gwerthfawrogi'n fawr ei bod wedi'i hanfon atom drwy e-bost hefyd."

"Diolch yn fawr iawn am y cwrs hwn; roedd mor hawdd deall yr holl wybodaeth a roddwyd, ac mae'n gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus i weithredu popeth yn fy ngweithle." Nododd 100% fod y wybodaeth yn ddefnyddiol ac eu bod yn debygol o roi'r dysgu ar waith."

- Chwarae yn yr elfennau
- Cadw cofnodion yn ddibapur gyda [swyddfa Cymru | ICO](#)
- Anghenion ychwanegol a chymhleth gyda siaradwyr arbenigol o'r sector
- Gwrth-hiliaeth gyda [DARPL – Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth](#) (3 gweminar i ymgorffori arfer da)
- Llesiant – gydag awdur llyfrau plant ar lesiant, hyfforddwr iechyd ardystiedig ac ymarferydd chwarae therapiwtig cymwys
- Mynd i'r afael â bwllo gyda [Bullies Out](#)
- Sgiliau pwyllgor
- Cyllido (2 sesiwn)
- Sgiliau gwaith chwarae
- Chwarae â rhannau rhydd
- Fframwaith NYTH/Llesiant
- Cyllid Moondance
- Cynllunio Diwrnodau Chwarae

Mae rhai fersiynau wedi'u recordio wedi'u darparu i'r sector eu defnyddio yn y dyfodol.

- Partneriaeth â Rhieni
- Bwyd a Maeth
- Datblygu/adolygu ansawdd mewn Gofal Plant All-Ysgol
- Amrywiaeth o gyflwyniadau gwrth-hiliaeth wedi'u recordio yn cwmpasu Egwyddorion 1-6 o'r Pecyn Cymorth Archwilio Gwrth-hiliaeth.

“Mae presenoldeb rheolaidd wedi cynyddu fy hyder yn fy rôl yn sylweddol, gan ddarparu canllawiau cyfredol ar bynciau allweddol megis diogelu, ymddygiad a gwrth-hiliaeth. Mae'r sesiynau hefyd yn cynnig cyfle rhwydweithio rhagorol, gan fy ngalluogi i rannu syniadau ac arferion gorau gyda darparwyr gofal plant all-ysgol eraill.”

[Bridging the Gap Youth : Lisa Clack](#)

Gyda'i gilydd, mae ein cynnig dysgu yn rhannu cryfderau'r sector. Darllenwch ragor yma - [Tyfu Gyda'n Gilydd drwy Ddysgu: Uchafbwyntiau o'n Gweminarau Clwb Hwb](#)

“Mae presenoldeb rheolaidd wedi cynyddu fy hyder yn fy rôl yn sylweddol, gan ddarparu canllawiau cyfredol ar bynciau allweddol megis diogelu, ymddygiad a gwrth-hiliaeth. Mae'r sesiynau hefyd yn cynnig cyfle rhwydweithio rhagorol, gan fy ngalluogi i rannu syniadau ac arferion gorau gyda darparwyr eraill.”

Yn dilyn Clwb Hwbs, anfonwyd e-byst dilynol wedi'u targedu i atgyfnerthu'r dysgu, darparu mynediad at adnoddau allweddol a chymorth pellach, hyrwyddo sesiynau Clwb Hwb sydd ar ddod ac annog adborth i gefnogi gwelliant parhaus yn y gwasanaeth. Er enghraifft:

Clwb Hwb Llesiant

Rhannwyd e-bost dilynol cynhwysfawr, gan gynnwys:

- Copi PDF o gyflwyniad Fframwaith Llesiant Cymru (NYTH)
- Adnoddau allweddol Llywodraeth Cymru ar y fframwaith NYTH
- Manylion cyswllt rhanbarthol ar gyfer arweinwyr NYTH/NEST i gefnogi ymgysylltu lleol
- Digwyddiad fforwm NYTH cenedlaethol sydd ar ddod
- Adnoddau llesiant allanol gan gynnwys canllawiau'r GIG, Mind, YoungMinds, y Samariaid a deunyddiau NSPCC

Adborth ar syniadau pellach ar gyfer Clwb Hwb

"Amlddiwylliannol, amrywiaeth yn y clwb, adnoddau, syniadau, gweithgareddau, hefyd syniadau am weithgareddau i blant hŷn, syml, y gellir eu cwblhau yn y clwb gyda 42 o blant yn mynychu"

"Chwarae risg"

"rhannu syniadau i'w gwneud mewn clybiau ar ôl ysgol"

"Dysgu awyr agored ysgol goedwig"

"Mwy o gyrsiau am arfer sy'n ystyriol o drawma, a sut i reoli ymddygiadau heriol"

"Unrhyw gefnogaeth sydd ar gael"

Yn ogystal, cyfeiriwyd mynychwyr at ein **Hwb Adnoddau Llesiant** [Hwb Llesiant - Clybiau Plant Cymru \(CYM\)](#) (ar gael drwy fewngofnodi fel aelod). Rhannwyd dolenni at nifer o adnoddau CPCKC hefyd, e.e. [Hwb Llesiant - Clybiau Plant Cymru \(CYM\)](#), [10 Ffordd o Gefnogi Iechyd Meddyliol a Llesiant Plant PDF](#), [Cefnogi ymwybyddiaeth ofalgar a llesiant mewn Clybiau Gofal Plant All-Ysgol - Banc o Adnoddau - Clybiau Plant Cymru \(CYM\)](#)

Adnoddau pwrpasol wedi'u datblygu i gefnogi'r Clybiau Gofal Plant All-Ysgol.

Dros **254** o adnoddau (cyfuniad o gyllid) ar ystod eang o bynciau perthnasol ac i ategu gweminarau a pholisi, heriau ac arfer da sy'n dod i'r amlwg, e.e. Poster Addewid Diogelu i Blant,

- Pecyn o adnoddau polisi gwrthdaro buddiannau
- Fideos hyfforddi newydd ar aflonyddu rhywiol polisi a gweithdrefn
- [Cylchlythyr Y Bont ar ddiogelu](#)
- Cynnwys plant mewn llywodraethu
- Diweddariadau i bolisïau templed
- Cymorth ariannol i rieni gyda ffioedd gofal plant
- Adnoddau diogelwch ar-lein
- Adnoddau gwrth-hiliol
- Cardiau gweithwyr chwarae i gefnogi heriau recriwtio
- Cyfres o bolisïau wedi'u hadolygu yn dilyn digwyddiad Stockport
- Polisïau newydd e.e. alergenau, gweithwyr ifanc
- Cymorth ariannol gyda ffioedd gofal plant
- [Swyddfa Cymru | ICO](#) pecyn adnoddau
- Polisïau craidd ar gyfer y rheoleiddiwr wedi'u diweddarau mewn cydweithrediad â'r rheoleiddiwr (AGC)
- Cylchlythyrau chwarterol dwyieithog
- Pecynnau adnoddau i gyd-fynd â phwnc penodol Clwb Hwb
- Pecyn Adnoddau AAA / Ymddygiad

Mae ein Hwb Adnoddau ar-lein yn darparu llyfrgell gynhwysfawr o ganllawiau ymarferol, offer ac adnoddau i'r sector, gan gynnwys [Hwb Cydraddoldeb](#), [Amrywiaeth a Chynhwysiant \(EDI\)](#) penodol - [Clybiau Plant Cymru \(CYM\)](#) a [Hybiau Llesiant](#).

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys:

[Adnoddau Diogelwch Ar-lein i Glybiau - Clybiau Plant Cymru \(EN\)](#)

[Y Bont - Clybiau Plant Cymru \(CYM\)](#)

Canlyniad 2: Bydd gan glybiau drefniadau llywodraethu cryfach a chadarn, gan ddiwallu anghenion plant, teuluoedd a chymunedau ledled Cymru.

Bydd 90 o Glybiau Gofal Plant All-Ysgol (dros gyfnod y Prosiect) wedi adolygu eu model rheoli presennol ac wedi cryfhau eu trefniadau llywodraethu mewn ffordd sy'n gweddu orau i anghenion eu clwb a'u cymuned, gan barchu barn plant a'u cadw wrth wraidd yr hyn a wnânt (Erthygl 12 CCUHP).

Gweithredoedd	Effaith/Canlyniad: beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r weithred	Tystiolaeth: enghreifftiau, astudiaethau achos ac ystadegau sy'n dangos yr effaith																										
Cyflwynwyd 805 o sesiynau sgiliau busnes yn ymwneud â llywodraethu, gyda 1,278 o fynychwyr. <table><tr><th colspan="2">Sgiliau Busnes</th></tr><tr><td>221</td><td>Polisiâu a Gweithdrefnau</td></tr><tr><td>202</td><td>Canfod hyfforddiant</td></tr><tr><td>194</td><td>Llywodraethu</td></tr><tr><td>46</td><td>Recriwtio staff yn fwy diogel</td></tr><tr><td>40</td><td>Rolau a Chyfrifoldebau</td></tr><tr><td>33</td><td>Cynllunio strategol</td></tr><tr><td>31</td><td>Rheoli staff</td></tr><tr><td>31</td><td>Recriwtio pwyllgor</td></tr></table>	Sgiliau Busnes		221	Polisiâu a Gweithdrefnau	202	Canfod hyfforddiant	194	Llywodraethu	46	Recriwtio staff yn fwy diogel	40	Rolau a Chyfrifoldebau	33	Cynllunio strategol	31	Rheoli staff	31	Recriwtio pwyllgor	Gwell sgiliau busnes a gwybodaeth i gefnogi rolau a chyfrifoldebau, datblygu polisiâu a gweithdrefnau, cynllunio'r gweithlu, recriwtio, datblygu staff/cynllunio olyniaeth, a sefydlu staff ac aelodau pwyllgor. Mae 1,278 o unigolion wedi cael cymorth i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau sy'n fuddiol i lywodraethu. 140 o leoliadau â llywodraethu cryfach gan gynnwys: 43 o Glybiau wedi cael cymorth i ddatblygu llywodraethu cryfach drwy welliannau allweddol i bolisiâu sy'n cydymffurfio â gofynion ansawdd neu reoleiddiol 30 ar gyfer recriwtio a sefydlu staff/aelodau pwyllgor	<table><tr><th></th><th>Cyflawnwyd</th><th>Targed</th><th>Amrywiant</th></tr><tr><td>Llywodraethu gwell</td><td>140</td><td>90</td><td>+50</td></tr></table> Darparwyd cymorth llywodraethu i ystod eang o fodelau busnes o fewn y prosiect hwn. Enghraifft Dwylo Hapus Darparwyd cymorth llywodraethu i Dwylo Hapus, clwb sy'n cefnogi teuluoedd y mae gan eu plant anghenion ychwanegol. Darllenwch ragor yma - Llywodraethu cryf, dod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO) <i>"Heb y cymorth gan Swyddogion Datblygu Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, a gafodd Dwylo Hapus o ddechrau cyntaf ein taith, ni fyddem lle'r ydym heddiw, gyda statws elusennol! Maent wedi ein cefnogi'n ddiflino ar bob cam drwy alwadau ffôn, e-byst, cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ati, ac nid oes dim yn ormod o drafferth iddynt wrth gynnig eu cymorth."</i> Pwyllgor CIO Dwylo Hapus		Cyflawnwyd	Targed	Amrywiant	Llywodraethu gwell	140	90	+50
Sgiliau Busnes																												
221	Polisiâu a Gweithdrefnau																											
202	Canfod hyfforddiant																											
194	Llywodraethu																											
46	Recriwtio staff yn fwy diogel																											
40	Rolau a Chyfrifoldebau																											
33	Cynllunio strategol																											
31	Rheoli staff																											
31	Recriwtio pwyllgor																											
	Cyflawnwyd	Targed	Amrywiant																									
Llywodraethu gwell	140	90	+50																									

35

- **21** o Glybiau wedi cael cymorth i gofrestru'n llwyddiannus fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (12), gan greu strwythur busnes mwy cadarn, neu fel cwmni cyfyngedig (9)
- **17** o Glybiau wedi cael cymorth i gryfhau llywodraethu a gwella ansawdd
- **15** aelod o staff a gyfeiriwyd at hyfforddiant sydd bellach wedi cymhwyso, gyda 16 arall yn dal i ddysgu
- **5** Rolau a Chyfrifoldebau
- **5** wedi cael cymorth i gwblhau eu hadroddiadau SASS
- **9** arall

Mae ystod o ddarparwyr wedi datblygu strwythurau corfforedig cryfach a mwy cadarn:

Enghraifft Hendy

[Hendy Childcare Improving Governance](#)

"Mae eu cymorth wedi bod yn gwbl amhrisiadwy wrth i mi gychwyn ar yr antur newydd hon. A dweud y gwir, wn i ddim beth fyddwn i wedi'i wneud hebddynt! O'r cychwyn cyntaf, gwnaethant i mi deimlo nad oeddwn ar fy mhen fy hun; mae'n wych gwybod bod pobl sy'n wirioneddol ofalu ac yn barod i helpu. Maent wedi fy arwain i'r cyfeiriad cywir, gan rannu cyngor craff ac adnoddau sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Heb y cymorth, rwy'n wirioneddol amau a fyddwn i'n gallu rhedeg busnes llwyddiannus. Mae eu hanogaeth wedi bod yn drawsnewidiol, gan droi rhywbeth a oedd yn teimlo'n llethol i ddechrau yn rhywbeth y gellir ei reoli ac sy'n gyffrous. Rwy'n hynod ddiolchgar fy mod wedi dod ar eu traws, ac edrychaf ymlaen at y daith sydd o'm blaen gyda'u harweiniad!"

Canlyniad 3: Sector cynaliadwy yng Nghymru sy'n cefnogi plant i chwarae ac yn galluogi teuluoedd a chymunedau i ffynnu.

Bydd 135 o leoliadau (dros gyfnod y Prosiect) wedi gwella eu cynaliadwyedd, gan gefnogi plant, teuluoedd a chymunedau i ffynnu drwy waith ar farchnata, cofrestru (mae cofrestru'n galluogi mynediad at gynlluniau cymorth ariannol – Gofal Plant Di-dreth a'r Cynnig Gofal Plant, gan wneud ffioedd yn fwy fforddiadwy i deuluoedd mewn cyfnodau economaidd anodd), gwaith gyda lleoliadau, cynllunio ariannol ac offer cadw cofnodion.

Gweithredoedd		Effaith/Canlyniad: beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r weithred	Tystiolaeth: enghreifftiau, astudiaethau achos ac ystadegau sy'n dangos yr effaith									
512 sesiwn sgiliau busnes wedi'u darparu yn ymwneud â chynaliadwyedd, gyda 804 o fynychwyr.		Gwell sgiliau busnes a gwybodaeth i hyrwyddo'r lleoliad yn effeithiol (ei ansawdd a'i fforddiadwyedd), gwella cynaliadwyedd a gwneud cais am gyllid. 804 o unigolion wedi cael cymorth i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau sy'n fuddiol i gynaliadwyedd. 202 o leoliadau â chynaliadwyedd gwell, gan gynnwys: • 97 o glybiau wedi llwyddo i gael gafael ar gyllid • 33 wedi cael cymorth (rhagolwg llif arian, marchnata, cyllid) i gynyddu niferoedd • 14 wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) • 19 wedi cofrestru ar gyfer Gofal Plant Di-dreth (TFC) • 14 wedi cofrestru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant (TCO)										
Blwyddyn hyd ymaSgiliau Busnes												
23	Systemau Ariannol											
75	Cynllunio Ariannol											
6	Gwiriad Iechyd Busnes											
176	Canfod a gwneud cais am gyllid											
134	Cymorth cofrestru AGC											
44	Cymorth cofrestru (TFC/TCO)											
48	Marchnata											
6	Monitro											
512	Cyfanswm											
			<table><tr><td></td><td>Wedi Cyflawni</td><td>Targed</td><td>Amrywiant</td></tr><tr><td>Cynaliadwyedd wedi'i wella</td><td>202</td><td>135</td><td>+67</td></tr></table>			Wedi Cyflawni	Targed	Amrywiant	Cynaliadwyedd wedi'i wella	202	135	+67
	Wedi Cyflawni	Targed	Amrywiant									
Cynaliadwyedd wedi'i wella	202	135	+67									
		Enghraifft Kidz Den Mae Rhagolygon Ariannol Cefnogi Cais Grant Llwyddiannus wedi galluogi Kidz Den, Sefydliad Corfforedig Elusennol sy'n cael ei redeg gan y gymuned, i gael gafael arat gyllid grant cyfalaf a gwella ansawdd eu hadeilad i blant. Mae'r cymorth <i>"yn golygu popeth i ni fel clwb; mae'n hyfryd cael Swyddog Datblygu yn ein hannog pan fydd ei angen arnom."</i>										
		37										

- **17** o glybiau wedi cael cymorth gyda'u cynllunio ariannol (rhagolwg llif arian)
- **2** wedi ail-negodi rhent/amodau
- **6** am resymau eraill

Clwb yn Ne Cymru

Darllenwch yr astudiaeth achos [Meithrin Gwydnwch Ariannol mewn Clwb Gofal Plant All-Ysgol](#); bu cymorth gyda chynllunio ariannol yn helpu'r clwb gyda chais grant, a dyfarnwyd £8,000.00 o gyllid cynaliadwyedd iddo.

"Mae'r cyngor a'r cymorth a ddarparwyd wedi helpu i gryfhau ein cynllunio ariannol ac wedi bod yn allweddol wrth gynnal cynaliadwyedd hirdymor y clwb."

Enghraifft Little Disciples

Galluogodd y cymorth a ddarparwyd i [Little Disciples Out of School Childcare](#) i wneud cais llwyddiannus am gyllid, gan dderbyn grant cychwyn o £3,000 i ddatblygu eu darpariaeth Gofal Cofleidiol, £5,660.85 i wella ansawdd yr ardal awyr agored a £692.23 i ddatblygu gardd lysiau ac adnoddau llesiant.

"Mae gan y CBDO gyfoeth o wybodaeth am y sector gofal plant a chwarae, ac ynghyd â'i phrofiad, mae wedi ein galluogi i ddatblygu ein busnes."

		Mae cofrestru Clwb Rôl-Ysgol OPS gydag AGC wedi cael effaith wirioneddol ar deuluoedd yn eu cymuned leol. Roedd cyllid grant ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol ar gael i'r clwb, yn ogystal â chofrestru ar gyfer Gofal Plant Di-dreth, gan wneud eu gwasanaeth estynedig yn fwy fforddiadwy i deuluoedd. Gyda thwf cyflym y lleoliad a heriau wrth recriwtio aelodau pwyllgor, ystyriodd y Clwb y gallai fod angen newid y model busnes er mwyn parhau i ddarparu llywodraethu cadarn. Am y rheswm hwn, ehangodd Overmonnow (OPS) ei wasanaeth ac mae bellach yn gweithredu fel Celyn. Mae Celyn Childcare: Ehangu Gofal Plant All-Ysgol yn galluogi rheolwyr i fod yn gyfrifol am arweinyddiaeth a chyfeiriad y Clwb, tra'n parhau i weithio o fewn y Clwb hefyd. Mae hyblygrwydd busnes sydd â'r gallu i sicrhau cynaliadwyedd, gyda chyllid yn cael ei ail-fuddsoddi yn y Clwb, amddiffyniad atebolrwydd cyfyngedig a mynediad at rai cyfleoedd cyllido, yn cryfhau'r ddarpariaeth. Cefnogwyd Clwb Twm i gynnig darpariaeth clwb gwyliau ar gyfer hyd at 72 o blant, ac maent bellach yn bwriadu tyfu'r ddarpariaeth wyliau bob blwyddyn. Drwy gydweithio ar draws prosiectau, roedd y Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant yn gallu cefnogi'r clwb i wneud cais am grant ehangu. https://youtu.be/fNwtd9GWUdM
--	--	---